

Pwyllgor Cyswilt Ystadegol Cymru

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2024

drwy Teams

Yn bresennol

Philip	Barlow	PB	Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Lee	Clarke	LC	Cyngor Sir Caerdydd
Rachel	Clegg	RC	Cyngor Sir Caerfyrddin
Peter	Davies	PD	Senedd
Vicki	Doyle	VD	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Janine	Edwards	JE	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
Carol	Evans	CE	Cyngor Conwy
Lloyd	Fisher	LF	Cyngor Bro Morgannwg
Catrin	Gilkes	CG	Cymen
Mari	Hopkins	MH	Cyngor Sir Ceredigion
Eleri	James	EJ	Comisiynydd y Gymraeg
Leanne	John	LJ	Cyngor Abertawe
Aled	Jones	AJ	Cymen (Cyfieithydd)
Nia	Jones	NJ	Llywodraeth Cymru
Steve	King	SK	Dinas a Sir Abertawe
Geraint	Morgan	GM	Cyngor Sir Powys
Llio	Owen	LO	Llywodraeth Cymru
Jonathan	Radcliffe	JR	Chwaraeon Cymru
Hayley	Randall	HR	Data Cymru
Eifion	Rees	ER	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Heledd	Rees	HRe	Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)
Lesley	Rees	LR	Cyngor Sir Caerfyrddin
Dafydd	Sedgewick	DS	Cyngor Bro Morgannwg
Elaine	Smith	ES	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Helena	Snuggs	HS	Chwaraeon Cymru
Alwyn	Williams	AW	Cyngor Sir Ynys Môn
Megan	Williams	MW	Llywodraeth Cymru
Lowri	Wyn Morton	LWM	Cyngor Gwynedd
Nia	Wyn Vaughan	NWV	Cyngor Gwynedd

Siaradwyr

Sabir	Ahmed	SA	Llywodraeth Cymru
-------	-------	----	-------------------

Sarah	Crofts	SC	SYG
Owen	Davies	OD	Gofal Cymdeithasol Cymru
Mary	Gregory	MG	SYG
Steph	Harries	SHa	Llywodraeth Cymru
Nigel	Henretty	NH	SYG
Steph	Howarth	SH	Llywodraeth Cymru
Sue	Leake	SL	Llywodraeth Cymru
Martin	Parry	MP	Llywodraeth Cymru
Sam	Sullivan	SS	Data Cymru
Kara	Steel	KS	SYG
Craig	Thomas	CT	Llywodraeth Cymru

Cofnodwyr

Ellen	Harper	EH	Llywodraeth Cymru
Ryan	Jones	RJ	Llywodraeth Cymru
Gunan	Singh	GS	Llywodraeth Cymru

Ymddiheuriadau

Gwyneth	Ayers	Cyngor Sir Caerfyrddin
Dan	Boon	Llywodraeth Cymru
Brett	Davis	Heddlu De Cymru
Bryn	Jeffries	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Kate	Jones	Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yng Nghymru
Luned	Jones	Llywodraeth Cymru
Steven	Marshall	Llywodraeth Cymru
Kay	Palmer	Archwilio Cymru
Caitlin	Theodorou	Cyngor Sir Ceredigion
Neil	Townsend	SYG
Andy	Wilson	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

1	Croeso, cyflwyniad ac ymddiheuriadau – Steph Howarth a Sue Leake, Llywodraeth Cymru	Camau gweithredu
	Croesawodd SH ac SL bawb. Darparwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer y cyfarfod hwn.	
2	Nodyn o'r cyfarfod diwethaf, diweddariad ar y pwyntiau gweithredu – Steph Howarth, Llywodraeth Cymru	

	<p>Nid oedd unrhyw sylwadau gan y sawl a oedd yn bresennol am y cyfarfod diwethaf.</p> <p>Rhodddwyd diweddariad ar y camau gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cafodd cynrychiolydd o Gofal Cymdeithasol Cymru ei wahodd i'r cyfarfod. • Anfonodd Steph Harries nodyn yn dweud y bydd y set nesaf o amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd is-genedlaethol bellach yn cael ei chyfrifo yn R, yn hytrach na'r rhaglen POPGROUP flaenorol. Disgwylir ar hyn o bryd i'r set nesaf o amcanestyniadau is-genedlaethol gael eu cyhoeddi yn ystod gwanwyn/haf 2025, ar ôl i SYG gyhoeddi'r amcanestyniadau cenedlaethol diweddaraf o'r boblogaeth. • Roedd un o'r camau gweithredu yn ymwneud â thalgrynnu data ar StatsCymru ar ddiartrefedd. Bydd ystadegau tai yn cyhoeddi data ar ddiartrefedd ar StatsCymru i fynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, nododd JE effaith ehangach talgrynnu celloedd i'r tri agosaf gan ei fod yn achosi gwallau adiol. Awgrymodd fod angen adolygu defnyddioldeb y data hyn. • Soniodd VD am ymarfer ailenwi AGEHI. Y targed yw cwblhau'r ymarfer erbyn mis Rhagfyr 2024. Dywedodd SH fod Stef Taylor a John Morris wedi cyfarfod â'r awdurdodau lleol a wnaeth ymateb i'r pwnc yn flaenorol. Bydd rhestr arfaethedig newydd o enwau AGEHI yn cael ei dosbarthu ym mis Tachwedd er mwyn cael gwybodaeth ac adborth lleol arni. 	
3	<p>Demograffeg a diweddariadau chwarterol Stats Cymru –Steph Howarth, Llywodraeth Cymru</p>	
	<p>Mae adroddiad Llesiant Cymru wedi cael ei gyhoeddi. Gan nad oedd data Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gael, cyfyngwyd ar y gwaith dadansoddi y gellid ei wneud ond mae'r tueddiadau blaenorol, er enghraifft anghydraddoldebau sy'n ehangu, i'w gweld o hyd. Disgwylir i gyfarfodydd gael eu cynnal â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a bwrdd Llesiant a chenedlaethau'r dyfodol a fydd yn canolbwyntio ar rannu a defnyddio canfyddiadau'r adroddiad.</p> <p>Nododd aelodau'r asesiadau Llesiant a'r asesiadau o anghenion y boblogaeth sydd i ddod. Dylid ystyried hyn</p>	<p>Yr ysgrifenyddiaeth i gynnwys asesiadau Llesiant fel eitem sefydlog ar yr agenda yn y dyfodol.</p>

<p>fel eitem sefydlog ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru dros y flwyddyn nesaf.</p> <p>Nododd VD fod y broses o ddatblygu eu datrysiad cronfa ddata ar-lein eu hunain ar gyfer asesiadau llesiant, a wrthodwyd gan fod Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu datrysiad, yn ôl pob sôn, wedi bod yn rhwystredig. Mae'r gwaith hwnnw bellach wedi cael ei atal, a disgwylir i Awdurdodau Lleol bellach lunio eu datrysiadau eu hunain, gan achosi gwastraff amser. Nid oedd SH yn ymwybodol o'r datrysiad hwn gan Lywodraeth Cymru a bydd yn rhoi gwybod i dîm perthnasol Llywodraeth Cymru am y rhwystredigaethau hyn.</p> <p>Mae'r broses achredu ystadegau swyddogol ar gyfer yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth wedi cael ei hatal yn sgil y cyfraddau ymateb is a'r ansicrwydd cynyddol o ran ansawdd data ar gyfer grwpiau bach a daearyddiaethau lefel isel.</p> <p>Mae gwaith maes Arolwg Cenedlaethol 2024-25 wedi dechrau a bwriedir iddo gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2025. Ceir heriau o ran pwysau cost a chynnal cyfraddau ymateb, a rhagwelir cyfradd ymateb derfynol o 9,000 neu lai. O'r herwydd, ni fydd gwaith maes 2025-26 yn cael ei gynnal a bydd yr Arolwg Cenedlaethol yn cael ei ailddylunio.</p> <p>Soniodd JE fod cyfarfod grŵp Cynghori MALIC wedi cael ei gynnal ddydd Mercher 9 Hydref a chadarnhaodd SL fod adroddiad ar y cynigion ar gyfer dangosyddion ar gyfer MALIC 2025 wedi'i gynllunio ar gyfer canol mis Tachwedd. Caiff y dogfennau cysylltiedig eu dosbarthu i aelodau Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru er mwyn iddynt wneud sylwadau ar y dangosyddion arfaethedig.</p> <p>Mae allbynnau ystadegau tân yn cael eu symleiddio ac mae'r tîm ystadegau perthnasol yn awyddus i gael mewnbwn gan ddefnyddwyr o ran pa elfennau sy'n cael eu defnyddio neu beidio. Cysylltwch â'r tîm Cynhwysiant Ystadegau i roi adborth.</p> <p>Mae'r gwasanaeth OData blaenorol bellach wedi dod i ben ac mae datrysiad dros dro bellach ar waith. Mae gwaith i ailgyhoeddi unrhyw giwbiau heb ffeiliau OData yn parhau. Dylai defnyddwyr roi gwybod i SH os ydynt</p>	<p>Bydd SH yn rhoi adborth ar y materion a godwyd gan VD am gronfa ddata leol ar gyfer asesiadau llesiant i dîm perthnasol Llywodraeth Cymru.</p> <p>Bydd defnyddwyr ystadegau tân Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru yn rhoi adborth i ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru ar beth sy'n cael ei ddefnyddio neu beidio.</p>
---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

	<p>am ddefnyddio ciwb heb ffeiliau OData erbyn hyn, er mwyn rhoi gwybod pa ddata i'w blaenoriaethu wrth ailgyhoeddi.</p> <p>Atgoffodd SH yr aelodau o'r cyfle i ymuno â'r sesiynau dangos a dweud (<i>show and tell</i>) bob pythefnos ar ddatblygu safle newydd StatsCymru.</p>	
4	Diweddariad Data Cymru – Sam Sullivan, Data Cymru	
	<p>Mae'r Dangosfwrdd Cydraddoldeb sy'n deillio o adroddiad 'A yw Cymru'n Decach?' wedi cael ei gyhoedd. Mae hyn yn cynnwys tua 30-40 o ddangosyddion a dadansoddiadau ar nodweddion cydraddoldeb. Gall cynghorau lleol hefyd weld proffiliau cydraddoldeb nad ydynt ar gael i'r cyhoedd ar hyn o bryd.</p> <p>Mae'r Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol bellach yn fyw ac yn cael ei wella'n barhaus. Caiff ei ddatblygu i greu adnodd cyson ac am ddim y gall pob cyngor lleol ei ddefnyddio at ddibenion cymharu. Mae naw cyngor wedi cofrestru hyd yma a disgwylir y bydd mwy na hanner wedi ymuno erbyn diwedd y flwyddyn. Cysylltwch â Sam Sullivan neu Hayley Randall i gael rhagor o wybodaeth.</p> <p>Gwnaed gwaith gyda Chomisiynydd y Gymraeg i lunio dangosfwrdd y Gymraeg sy'n cynnwys data Cyfrifiad 2021 ar allu yn y Gymraeg i lawr at lefel leol.</p> <p>Mae cyrsiau hyfforddiant ac uwchsgilio am ddim ar gael yn Gymraeg a Saesneg: 'Data 101' a 'Deall a defnyddio data perfformiad'. Gofynnodd ES faint o bobl sy'n cymryd rhan yn y cyrsiau hyn fesul cyngor lleol. Ymatebodd SS drwy ddweud bod lle i ddau aelod o gynghorau lleol ar bob cwrs er mwyn sicrhau nad oes gormod o bobl yn bresennol, ond nododd fod cyrsiau penodedig yn cael eu cynnig hefyd.</p>	
5	Data gweithgarwch meddygfeydd – Sabir Ahmed a Craig Thomas, Llywodraeth Cymru	
	<p>Rhoddodd CT gyflwyniad o'r enw Gweithgarwch Meddygfeydd</p> <p>Tan fis Mehefin eleni, dim ond nifer o eitemau y gallai meddygfa eu rhagnodi oedd yn fesuradwy. Nawr, gellir cael gafael ar ddata eraill. Disgrifiodd CT y ffynonellau, yr ystyriaethau ansawdd a'r dadansoddiad newydd sydd ar gael, a oedd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nifer yr apwyntiadau a wnaed 	<p>Pob un – ymunwch â sesiwn dangos a dweud StatsCymru i ddysgu a rhoi adborth ar gyfer diweddariadau.</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Presenoldeb • Cronig neu aciwt • Meddyg teulu, rhagnodwr annibynnol neu aelod arall o staff • Yn bersonol, wyneb yn wyneb neu dros y ffôn <p>Nododd CT fod y camau nesaf yn cynnwys cysylltu data gweithgarwch ag anghenion cleifion a'r gweithlu.</p> <p>Trafodwyd y ddaearyddiaeth a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad (clystyrau gofal sylfaenol). Mae meddygon teulu yn rhan o ofal sylfaenol sy'n cael ei ddarparu'n unol â model seiliedig ar glystyrau. Mae'r model clystyrau yn golygu ei bod hi'n heriol cysylltu â gwasanaethau a ddarperir mewn meysydd polisi gwahanol, drwy fodel awdurdod lleol.</p>	
6	Deall data gan Gofal Cymdeithasol Cymru – Owen Davies, Gofal Cymdeithasol Cymru	
	<p>Cyflwynodd OD sleidiau ar Gofal Cymdeithasol Cymru, y rôl mae'n ei chwarae ym maes data Gofal Cymdeithasol a rhywfaint o'i waith cyfredol. Mae'n chwarae rhan fawr wrth gasglu data a rhoi cyngor polisi sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol. Mae hefyd yn gweithio ar Raglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru.</p> <p>Caiff trawsnewid a galluoedd digidol ei ystyried yn un o'r prif feysydd i'w wella, ochr yn ochr ag ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n edrych ar ddata ond sy'n aml yn cael data o ansawdd gwael. Nododd OD hefyd fod hyn yn fater sy'n effeithio ar weithwyr gofal cymdeithasol annibynnol sy'n llai tebygol o ddefnyddio gwasanaethau digidol ar gyfer eu tasgau bob dydd.</p> <p>Cynllunio i ddod â chymaint o ddata gofal cymdeithasol i Gymru at ei gilydd yn y porth data gofal cymdeithasol cenedlaethol ar gyfer Cymru. Daw'r ffynonellau o sawl sefydliad, fel SYG ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae llawer o bwysau i'w gwneud hi'n haws i gynulleidfa annhechnegol ac i ymgymryd â gwaith trawsnewid digidol yn gyflym.</p> <p>Soniodd JE pe byddai llawer o drawsnewid, y gallai fod risg na fyddai'r porth data cenedlaethol yn ddefnyddiol mwyach i ddadansoddwyr, o ran prosiectau sydd i ddod fel prosiectau llesiant a'r boblogaeth. Rhoddodd OD</p>	

	<p>sicrwydd na ddylai'r trawsnewid gael effaith negyddol ar ddadansoddwyr ond mai'r nod yw symud y ffocws er mwyn cynnwys cynulleidfaoedd annhechnegol.</p> <p>Mae JE ac OD hefyd yn fwy na pharod i gydweithio ar waith sy'n cynnwys amcanestyniadau ar gyfer y dyfodol a lle gall demograffwyr fod o gymorth.</p>	
7	<p>Dyfodol ystadegau poblogaeth a mudo sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol – Kara Steel a Sarah Crofts, SYG</p>	
	<p>Cyflwynodd KS ac SC sleidiau ar ystadegau poblogaeth a mudo ar gyfer y dyfodol yng Nghymru – rhaglen Dyfodol Ystadegau Poblogaeth a Mudo.</p> <p>Mae SYG wedi bod yn datblygu amcangyfrifon poblogaeth a mudo sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol ar gyfer Cymru a Lloegr, ac mae wedi bod yn gweithio gyda'r llywodraethau datganoledig i gysoni amcangyfrifon poblogaeth y dyfodol. Nod SYG yw mai amcangyfrifon o'r boblogaeth sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol fydd y mesur swyddogol o'r boblogaeth, gan ddisodli'r amcangyfrifon canol blwyddyn traddodiadol, o haf 2025 ymlaen.</p> <p>Gofynnodd JE pryd bydd y crynodeb o ymatebion o ymgynghoriad SYG ar ddyfodol ystadegau'r boblogaeth a mudo yn cael ei gyhoeddi. Ymatebodd KS mai'r nod yw cyhoeddi'r adroddiad ar yr ymgynghoriad ochr yn ochr ag argymhellion yr Ystadegydd Gwladol ynghylch dyfodol ystadegau'r boblogaeth a mudo yng Nghymru a Lloegr.</p> <p>Mae SYG yn chwilio am adborth ar y dull cyffredinol, ond gyda ffocws ychwanegol ar ymdrin â diwygiadau a'i gwneud hi'n haws i awdurdodau lleol yn y tymor hir.</p> <p>Gofynnodd JE beth fydd amcangyfrifon o'r boblogaeth yn seiliedig ar ddata gweinyddol yn cael eu mesur yn ei erbyn er mwyn sicrhau eu bod yn ddilys, gan mai'r cyfrifiad a ddefnyddiwyd yn hanesyddol i gadarnhau amcangyfrifon o'r boblogaeth a nodweddion demograffig ychwanegol, gan gynnwys amcangyfrifon o stoc anheddau. Ymhelaethodd SC ar rywfaint o'r gwaith sydd wrthi'n cael ei wneud yn SYG er mwyn ystyried sut y gallai amcangyfrifon o rai nodweddion gael eu cynhyrchu gan ddata gweinyddol, a'r opsiynau ar gyfer cwmpas gan</p>	

	<p>addasu'r amcangyfrifon o'r boblogaeth yn seiliedig ar ddata gweinyddol heb gyfrifiad.</p> <p>Gofynnodd JE a yw cydweithwyr Llywodraeth Cymru sy'n ymgymryd â gwaith sy'n gysylltiedig â'r boblogaeth wedi'u cynnwys yn y broses hon er mwyn sicrhau safbwynt cenedlaethol i'r rhaglen. Mae SH ac MP yn gysylltiedig â rhannau gwahanol o'r rhaglen. Maent yn bwriadu cysylltu'n uniongyrchol â'r awdurdodau lleol dan sylw, gan na fyddent o reidwydd yn ymwybodol o'r setiau data sydd ar gael yn lleol.</p> <p>Gofynnodd JE sut mae'r rhaglen hon yn datblygu o safbwynt y llywodraethau datganoledig eraill. Ymatebodd SC eu bod yn gweithio'n agos gyda'r Alban a Gogledd Iwerddon, a bod gweithgor llywodraethau datganoledig yn cyfarfod yn rheolaidd.</p> <p>Eglurodd SC fod y rhaglen yn dechrau ar lefel awdurdod lleol fel llinell sylfaen. Ceir maes gwaith sy'n ystyried y posibilrwydd o ddatblygu amcangyfrifon o'r boblogaeth yn seiliedig ar ddata gweinyddol ar gyfer daearyddiaethau lefel is.</p>	
7	<p>Amcangyfrifon ac amcanestyniadau o boblogaeth SYG – Nigel Henretty, SYG</p>	
	<p>Rhoddodd NH o SYG sgwrs ar amcanestyniadau ac amcangyfrifon o'r boblogaeth ar gyfer y dyfodol yn y DU.</p> <p>Bwriedir i'r amcanestyniadau o'r boblogaeth genedlaethol yn 2022 gael eu rhyddhau ym mis Tachwedd a byddant yn cynnwys set o brif amcanestyniadau ac amcanestyniadau amrywiol o'r boblogaeth gyda thybiaethau wedi'u diweddarau ar ddata hyd at 2022. Mae SYG hefyd yn bwriadu cyhoeddi amcanestyniadau is-genedlaethol ar gyfer Lloegr yn ystod gwanwyn 2025. Nid oes dyddiadau penodol wedi'u cyhoeddi ar gyfer amcanestyniadau is-genedlaethol ar gyfer unrhyw wlad arall. Ychwanegodd NH fod SYG yn ystyried cyhoeddi amcanestyniadau cenedlaethol ac is-genedlaethol bob rhyw ddwy flynedd.</p> <p>Cyhoeddwyd set o amcanestyniadau dros dro o'r boblogaeth ym mis Ionawr gyda thybiaethau mudo wedi'u diweddarau, ond heb ddiweddarau'r tybiaethau ffrwythlondeb a marwolaeth. Mudo oedd y ffactor ysgogi</p>	

	<p>mwyaf ar gyfer newidiadau yn y boblogaeth yn y tymor byr.</p> <p>Mae'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi bod yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer asesiadau o'r farchnad dai yn Lloegr, a allai newid sut y caiff amcanestyniadau o'r boblogaeth eu defnyddio. Mae SYG yn aros i glywed canlyniadau'r broses hon er mwyn cadarnhau a oes angen cynnal mwy o waith i ymgysylltu â defnyddwyr er mwyn penderfynu a ddylid parhau i gynnal yr amcanestyniadau o aelwydydd.</p> <p>Eglurodd NH eu bod yn cael eu defnyddio mewn sawl ffordd arall yn ychwanegol at bolisi tai, a bod trafodaethau yn mynd rhagddynt am gynhyrchu amcanestyniadau ar gyfer nodweddion eraill fel grŵp ethnig a statws iechyd.</p>	
8	<p>Cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer amcanestyniadau o'r boblogaeth a meithrin gallu - Martin Parry, Llywodraeth Cymru</p>	
	<p>Rhoddodd MP a SHa gyflwyniad.</p> <p>Soniodd MP y byddent yn trafod amcanestyniadau is-genedlaethol, amcangyfrifon o aelwydydd, ymgysylltu â defnyddwyr a meithrin gallu. Ac yn dod i ben â chwestiynau a thrafodaeth.</p> <p>Yna, cymerodd SHa yr awenau a rhoddodd ddiweddariad ar yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd is-genedlaethol, gan ganolbwyntio ar ddatblygiadau diweddar, heriau a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.</p> <p>Amcanestyniadau is-genedlaethol o'r boblogaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Mae'r amcanestyniadau hyn yn amcangyfrif maint a strwythur y boblogaeth yn y dyfodol yn seiliedig ar oedran, rhyw, cyfraddau geni/marw a thueddiadau mudo (gan gynnwys rhyngwladol, trawsffiniol ac o fewn Cymru). - Roedd yr amcanestyniadau diwethaf yn seiliedig ar ddata 2018 ac fe'u cyhoeddwyd yn 2020 ar gyfer awdurdodau lleol ac yn 2021 ar gyfer parciau cenedlaethol. - Mae amcanestyniadau yn hollbwysig ar gyfer cynllunio a dyrannu cyllid mewn meysydd fel tai, gofal iechyd, addysg a thrafnidiaeth. 	

Amcanestyniadau is-genedlaethol o aelwydydd:

- Amcangyfrif ar gyfer y niferoedd a'r mathau o aelwydydd yn y dyfodol, yn seiliedig ar dueddiadau demograffig a data'r cyfrifiad.
- Cyhoeddwyd yr amcanestyniadau diwethaf yn 2020 ar gyfer awdurdodau lleol ac yn 2021 ar gyfer parciau cenedlaethol.
- Bydd amcanestyniadau wedi'u diweddarau yn cynnwys data Cyfrifiad 2021 ac maent yn debygol o gael eu cyhoeddi yn ystod gwanwyn/haf 2025, yn dibynnu pryd y caiff amcanestyniadau SYG o'r boblogaeth genedlaethol eu cyhoeddi.

Heriau wrth ddefnyddio meddalwedd POPGROUP:

- Roedd Llywodraeth Cymru yn arfer defnyddio meddalwedd POPGROUP i gyfrifo amcanestyniadau, ond ni chaiff y feddalwedd hon ei chefnogi mwyach.
- Mae'r tîm wedi trawsnewid i ddefnyddio iaith raglennu R i ailadrodd y prosesau hyn, sy'n rhoi mwy o reolaeth a hyblygrwydd.
- Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio gallu rhedeg POPGROUP ac R ar y cyd ar gyfer amcanestyniadau yn seiliedig ar 2022 a bydd yn sicrhau bod cod R ar gael i ddefnyddwyr.

Newidiadau yn y boblogaeth ers Cyfrifiad 2021:

- Dangosodd Cyfrifiad 2021 boblogaeth is na'r disgwyl yng Nghymru, gyda ffigurau is mewn sawl awdurdod lleol.
- Cafodd amcangyfrifon o'r boblogaeth wedi'u hailsylfaenu ar gyfer 2012 i 2021 eu cyhoeddi gan SYG yn 2023. Cyhoeddwyd dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r amcangyfrifon hyn ym mis Gorffennaf 2024.

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol:

- Caiff yr amcanestyniadau is-genedlaethol eu diweddarau i adlewyrchu data 2022.
- Disgwylir i amcanestyniadau wedi'u diweddarau ar gyfer awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol gael eu cyhoeddi yn ystod gwanwyn/haf 2025.

	<ul style="list-style-type: none"> - Caiff amrywiolion o'r amcanestyniadau, yn seiliedig ar senarios gwahanol (er enghraifft, cyfraddau geni is), hefyd eu cyhoeddi i ddangos effaith tybiaethau amrywiol. <p>Amcangyfrifon o aelwydydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddiweddaru'r amcangyfrifon o aelwydydd ar gyfer y cyfnod o 2012 i 2023, gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2021. Caiff yr amcangyfrifon hyn eu cyhoeddi cyn yr amcanestyniadau o aelwydydd. <p>Yna, cynhaliodd MP a SHa sesiwn ryngweithiol gan ddefnyddio Slido, a chaiff adborth o'r cwestiynau hyn ei ddefnyddio i lywio cynlluniau ar gyfer y dyfodol.</p>	
9	Unrhyw fater arall	
	<p>Mae HRe yn awyddus i gael adborth ar fylchau data lleol, yn enwedig mewn perthynas â thlodi plant, ac o ran sut mae pryderon ynghylch ansawdd data yn effeithio ar ddefnydd. Mae croeso i'r sawl sy'n bresennol gysylltu â hi'n uniongyrchol i gael rhagor o wybodaeth.</p> <p>Cafodd Cynulliad arfaethedig Awdurdod Ystadegau'r DU, sydd wedi'i drefnu ar gyfer 22 Ionawr 2025 yn Llundain (gydag opsiynau i ymuno ar ffurf rithwir) ei grybwyll. Nod y digwyddiad hwn yw trafod anghenion a blaenoriaethau defnyddwyr ar gyfer y system ystadegol. Bydd MP ac SH yn mynd i'r digwyddiad, ac awgrymwyd y dylai WSLC ystyried enwebu aelod i gynrychioli buddiannau Cymru. Mynegodd JE a VD ddiddordeb mewn mynychu o bell.</p> <p>Bydd SL yn camu i lawr o'i rôl ar Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru am ei bod yn gostwng ei horiau gwaith. Mynegodd y sawl a oedd yn bresennol eu diolch i SL am ei blynnyddoedd o wasanaeth a'i chyfraniadau at y pwyllgor. Bydd Martin Parry yn ymgymryd â chyfrifoldebau Sue mewn perthynas â Phwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru o hyn ymlaen.</p> <p>Tynnodd JE sylw at y ffaith fod SYG wedi llofnodi cytundeb i gydweithredu ag Eurostat.</p> <p>Mae cyfarfod nesaf Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru wedi'i drefnu ar gyfer 6 Chwefror 2025. Bydd y pynciau ar</p>	

	gyfer cyfarfodydd y dyfodol yn cynnwys asesiadau llesiant a diweddariadau gan SYG ar ystadegau'r boblogaeth.	
--	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--

	Camau gweithredu	Aelod(au)
1	Yr ysgrifenyddiaeth i gynnwys asesiadau llesiant fel eitem sefydlog ar yr agenda yn y dyfodol.	Ysgrifenyddiaeth
2	Bydd SH yn rhoi adborth ar y materion a godwyd gan VD am gronfa ddata leol ar gyfer asesiadau llesiant i dîm perthnasol Llywodraeth Cymru.	Steph Howarth
3	Bydd defnyddwyr ystadegau tân Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru yn rhoi adborth i ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru ar beth sy'n cael ei ddefnyddio neu beidio.	Defnyddwyr ystadegau tân Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru
4	Ymuno â sesiwn dangos a dweud StatsCymru i ddysgu a rhoi adborth ar gyfer diweddariadau. Croeso i StatsCymru Prosiectau Ymgynghori Marvell (marvell-consulting.github.io) .	Pob aelod